'Tŷ Pentyrch',
11 Maesteg Road,
Cwmfelin,
Maesteg,
CF34 9LB.
Rhif y cwmni: 10140626

Datganiad IR35 - statws contractwr annibynnol

Mae Cwmni2 yn gwmni cyfyngedig preifat ac yn gontractwr annibynnol, sydd naill ai wedi'i gomisiynu'n uniongyrchol i wneud gwaith ymgynghori polisi untro penodol, neu wedi'i gontractio drwy broses dendro ar gyfer gwaith ymgynghori polisi neu waith cyfieithu, neu fel rhan o drefniant fframwaith dan gontract.

Mae Cwmni2 yn gontractwr annibynnol ac felly nid yw "o fewn cwmpas" o dan ofynion IR35. Cyfrifoldeb cyfrifydd Cwmni2 yw delio ag unrhyw dreth gorfforaeth, Yswiriant Gwladol ac ati fel rhan o gyflogres fisol a chyfrifon blynyddol y cwmni.

Rheolaeth a Buddion

Nid yw Cwmni2 dan oruchwyliaeth, rheolaeth na chyfeiriad uniongyrchol y cleient wrth gyflawni'r gwaith, y tu hwnt i gydymffurfio'n gyffredinol â manyleb y gwaith a'r amserlen dychwelyd, ac felly'n llwyr gyfrifol am benderfynu **sut** a **phryd** bydd y gwaith yn cael ei wneud bob dydd/wythnos, ac eithrio ar gyfer cyfarfodydd neu gyflwyniadau ar ddyddiadau y cytunwyd arnynt gan y partïon dan sylw.

Heblaw am unrhyw ofynion cytundebol penodol, Cwmni2 sy'n llwyr gyfrifol am benderfynu **ble** caiff y gwaith ei wneud (ar gyfer gwaith cyfieithu a gwaith ymgynghori polisi, gwneir hyn gartref).

Nid oes gan Cwmni2 unrhyw fudd cyflogaeth oddi wrth y cleient am wneud y gwaith y cytunwyd arno, megis gwyliau, tâl salwch, pensiwn, mynediad dyddiol/rheolaidd i gyfleusterau staff ac ati.

Rhwymedigaeth Gydfuddiannol

Er mwyn dod o dan IR35, byddai'n rhaid i rwymedigaeth gydfuddiannol bodoli lle byddai cyflogwr yn disgwyl i weithiwr ymgymryd â gwaith pan ofynnir iddo wneud hynny, ac mae'r cyflogai yn disgwyl derbyn gwaith rheolaidd ac i gyflog gael ei dalu. Byddai contractwyr annibynnol yn disgwyl i gleient ei logi/comisiynu/contractio er mwyn iddynt gyflawni tasg y cytunwyd arni yn unol â manyleb neu fframwaith, heb unrhyw ddisgwyliad na gwarant o waith pellach ar ôl cwblhau'r dasg gychwynnol.

Dyma'r sefyllfa o ran Cwmni2 a'r gwaith ymgynghori polisi a'r gwaith cyfieithu y mae'r cwmni'n ymgymryd â hwy.

Darpariaeth Offer

Mae Cwmni2 yn defnyddio ei offer ei hun gan amlaf i wneud gwaith cyfieithu a'r gwaith ymgynghori polisi, nid offer sy'n perthyn i'r cleient.

Mae Cwmni2 ond yn defnyddio offer sy'n perthyn i gleient wrth ddarparu a'r gwaith ymgynghori polisi; mae hyn fel arfer yn cynnwys gliniaduron ac uwch-daflunwyr/sgriniau yn y lleoliad o ddewis y cleient, os nad yw hyn yn cael ei wneud dros Teams neu Zoom.

Hawliau Perchnogaeth

Mae hawliau perchnogaeth yn cwmpasu asedau sy'n cael eu creu neu eu defnyddio yn ystod cyfnod contract, a gallant gynnwys asedau annirweddol, megis eiddo deallusol. O dan IR35, lle mae contractwr fel Cwmni2 yn parhau i fod yn berchen ar asedau a grëwyd yn ystod contract, unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau a'i fod yn gweithio y tu allan i'r trefniadau cytundebol gwreiddiol, mae hwn yn ddangosydd eu bod yn rhedeg busnes annibynnol.

Yn ystod gwaith ymgynghori polisi a gwaith cyfieithu, er y byddai **cynnwys** sefydliad-benodol unrhyw waith o dan berchnogaeth y sefydliad hwnnw (o bosibl oherwydd gofynion RhDDC a Diogelu Data er enghraifft, neu lle defnyddir enwau ac ystadegau adrannol), mae gan Cwmni2 berchnogaeth ar unrhyw fformat, templed, dull, proses, profiad a gwybodaeth (ac eithrio'r hyn sy'n breifat ac yn dod o dan gytundeb y contract) a gellir ei ddefnyddio'n gyffredinol ar gyfer gwaith tebyg i sefydliadau eraill.

Yn aml, mae ceisiadau llwyddiannus am gontractau yn dibynnu'n rhannol ar gymwysterau, profiad a gwybodaeth brofedig Cwmni2; i bob pwrpas, materion eiddo deallusol yw'r rheini ac mewn ffordd wrthdro i'r senario uchod, gellid defnyddio gwaith Cwmni2 i sefydliadau eraill mewn contract newydd gyda sefydliad arall.

Sail Talu

At ddibenion gwaith a gomisiynwyd neu dan gontract, mae'r sail dalu ar ffurf cais swyddogol a/neu orchymyn prynu **oddi wrth** y cleient **i** Cwmni2 ar ddechrau'r gwaith, ac anfoneb heb TAW yn cael ei chyflwyno ar ddiwedd y gwaith hwnnw **i'r** cleient **oddi wrth** Cwmni2, am y swm y cytunwyd arno, heb unrhyw ddidyniadau gan y cleient. Gellir hefyd trefnu taliadau fesul cam dros gyfnod y cytunwyd arno, a nodi'r dyddiadau dyledus hynny o fewn y gorchymyn prynu.

Cwmni2 fel Contractwr Busnes ac Annibynnol

Pwyntiau cyffredinol amrywiol ynghylch statws IR35 Cwmni2:

- Mae Cwmni2 yn gweithio i nifer o gleientiaid ar yr un pryd, yn aml ar yr un diwrnod, ar waith cyfieithu, rheoli prosiectau neu waith ymgynghori polisi.
- Mae gan Cwmni2 wefan fusnes a chyfeiriad e-bost busnes ei hun, yn ogystal â logo cwmni, pennawd llythyr wedi'i bersonoli, anfonebau a dogfennau dyfynbris.
- Mae Cwmni2 yn defnyddio ei gyfarpar ei hun ar gyfer ei holl waith ac eithrio yn ystod cyflwyniadau, lle defnyddir safle/offer y cleient i gyflwyno'r sesiwn hynny.
- Nid yw Cwmni2 wedi'i gofrestru ar gyfer TAW.
- Mae gan Cwmni2 ei yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac Indemniad Proffesiynol ei hun mewn lle.
- Mae Cwmni2 yn unig fasnachwr, felly nid oes unrhyw weithiwr arall ar wahân i Gyfarwyddwr y Cwmni, sy'n berchennog llawn y cwmni. Nid yw Cwmni2 yn is-gontractio unrhyw waith i drydydd parti. Mae Cwmni2 felly wedi eithrio rhag gorfod cael Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr mewn lle o dan Ddeddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 gan fod eithriadau'n cynnwys - "cwmnïau sy'n cyflogi dim ond eu perchennog, lle mae'r cyflogai hwnnw hefyd yn berchen ar 50% neu fwy o'r cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd yn y cwmni".
- Mae Cwmni2 yn gweithio allan o ystafell "swyddfa" benodol yng nghartref y perchennog, nid o fewn safle unrhyw gleient, ac eithrio ar gyfer cyfarfodydd neu gyflwyniadau ad-hoc.
- Mae Cwmni2 yn aml yn tendro am waith gan gleientiaid newydd ar gyfer prosiectau, yn ogystal ag o gleientiaid presennol, ond nid yw'n disgwyl bod yn llwyddiannus dim ond yn seiliedig ar unrhyw waith blaenorol a wnaed ar eu cyfer.